O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 54 (Cy. 24)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymhwyso amryw o ddeddfiadau i geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sydd o arwyddocâd cenedlaethol.

Mae'r Gorchymyn hefyd yn addasu'r deddfiadau hynny, pan fo'n briodol gwneud hynny.

Mae asesiad effaith wedi ei baratoi mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. Mae copïau ohono ar gael gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2016 Rhif 54 (Cy. 24)**

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

# Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016

*Gwnaed* *27 Ionawr 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *1 Chwefrorr 2016*

*Yn dod i rym* *1 Mawrth 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 75A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

## RHAN 1

## Rhagarweiniol

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016 a daw i rym ar 1 Mawrth 2016.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

(**1**) 1990 p. 8; Mewnosodwyd adran 75A gan adran 27 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4), a pharagraff 7 o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

**Cymhwyso Deddf 1990 i geisiadau am ganiatâd cynllunio a wneir mewn cysylltiad â datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol**

**3.**—(1) Mae'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 1990 yn gymwys i geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 62D o'r Ddeddf honno(**1**) gydag addasiadau fel bod cyfeiriadau at awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu trin fel cyfeiriadau at Weinidogion Cymru—

(a) adran 62(1);

(b) adran 62(3);

(c) adran 65(5);

(d) adran 70(1);

(e) adran 70(2)(**2**);

(f) adran 70A(1)(**3**);

(g) adran 70A(2);

(h) adran 71(1)(**4**);

(i) adran 71(2);

(j) adran 72(1);

(k) adran 73(2);

(l) adran 73A(1)(**5**); ac

(m) adran 327A(2)(**6**).

(2) Pan fo unrhyw ddarpariaeth arall o Ddeddf 1990 yn cyfeirio at ddarpariaeth a addesir gan y Gorchymyn hwn, rhaid darllen y cyfeiriad hwnnw, mewn perthynas â chais o dan adran 62D o'r Ddeddf honno, fel pe bai'n gyfeiriad at y ddarpariaeth fel y'i haddaswyd.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Adnoddau Naturiol, un o Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2016

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 62D gan adran 19 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

(**2**) Gwnaed diwygiadau i adran 70(2) nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**3**) Mewnosodwyd adran 70A gan adran 17(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Gwnaed diwygiadau i adran 70A nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**4**) Amnewidiwyd adran 71(1) a (2) gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991.

(**5**) Mewnosodwyd adran 73A gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a pharagraff 16 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

(**6**) Mewnosodwyd adran 327A gan adran 42(5) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5).